

CANLLAWIAU

GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

NOD GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

Nod Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd yw **cefnogi ystod o weithgareddau a phrosiectau gwirfoddoli bach a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc.**

Mae ceisiadau yn cael eu dewis a'u hargymell gan banel o bobl ifanc sydd rhwng 14-25 oed.

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd sydd yn gyfrifol am weinyddu'r grant gyda chymorth panel o bobl ifanc. Y panel yma sydd yn asesu pob cais.

GRANT GWIRFODDOLWYR GWYNEDD – ARIAN GRANT AR GYFER CYNLLUNIAU A PHROSIECTAU GWIRFODDOLI I BOBL IFANC YNG NGWYNEDD YN UNIG.

Mae Grant Gwirfoddolwyr Gwynedd yn anelu at roi blaenoriaeth i ddarparu cyfleoedd i **bobl ifanc sydd rhwng 14-25 oed** ac yn benodol:

- pobl ifanc o gymunedau difreintiedig: yn benodol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- pobl ifanc a chanddynt anableddau corfforol neu anableddau dysgu

FAINT O GRANT ELLIR EI WOBROWYO?

Gellir ymgeisio am grant hyd at **uchafswm o £500 i gefnogi prosiect gwirfoddoli sy'n cynnwys yn benodol pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed a / neu ei arwain gan bobl ifanc.** Bydd angen dangos y bydd pobl ifanc yn elwa o'r cynllun, neu ei fod yn sefydlu cyfle gwirfoddoli parhaol.

PWY ALL WNEUD CAIS AM GYLLID?

Os yw mudiadau'n cael nawdd:

- dylai bod ganddynt gyfansoddiad cyfreithiol gyda dogfen lywodraethu wedi'i llofnodi a'i mabwysiadu; (rhaid i amcanion y prosiect gydweddu â'r gyfansoddiad);
- **rhaid i'r prosiect fod wedi ei leoli ai redeg yng Ngwynedd.**
- dylai eu bod yn annibynnol o'r sectorau'r llywodraeth a sectorau preifat;

- dylai bod gan y mudiad gyfrif banc, yn enw'r mudiad, sy'n gofyn am lofnod o leiaf dau berson

Fodd bynnag, mae'n debygol y ceir ceisiadau gan bobl ifanc o grwpiau di-gyfansoddiad. Mewn achosion o'r fath, fe all y Ganolfan Gwirfoddoli drafod y posibiladau o dalu anfonebau'n uniongyrchol, neu dalu'r grant i fudiad cymwys a fydd yn eu cefnogi.

Bydd angen i bob prosiect gydymffurfio â thelerau ac amoda'r grant. Mewn rhai amgylchiadau, bydd amodau arbennig yn cael eu gosod ar brosiectau.

BETH DDYLID EU CYNNWYS?

1. Ffurflen gais wedi ei chwblhau a'i arwyddo gan ddau aelod o'r grŵp.
2. Copi o gyfansoddiad ein grwpiau/sefydliadau cefnogol.
3. Copi o ddatganiad banc diweddar ein grwpiau/sefydliadau cefnogol.
4. Os yn berthnasol amgaeaf ddyfynbrisiau/amcangyfrifon a/neu dystiolaeth arall o gostau (e.e. copi o dudalennau catalog)
5. Rhifau ac enwau'r bobl ifanc fydd yn cymeryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a gyllidir.
6. Rhaid i grwpiau newydd ddarparu rhestr o enwau swyddogion ac aelodau o bwyllgor y grŵp(os yn berthnasol)

SUT I WNEUD CAIS?

Am ffurflen gais neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â **Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd** ar **01286 672626** neu gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

DYDDIADAU CAU 2017-18

Rownd 1 -16/06/2017

Rownd 2 - 29/09/2017

Rownd 3 - 17/11/2017

Rownd 4 - 12/01/2018

**Hysbysir ceisiadau llwyddiannus o fewn pythefnos i'r dyddiad cau.
Rhaid gwario'r arian erbyn 31ain Mawrth 2017.**